TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Gwobr mewn Aeliau Microblading Lefel 4



**Cynnwys y cwrs**

Mae microlafnu yn fath o golur lled-barhaol sy'n cael ei ddefnyddio ar aeliau trwy osod pigment lliw i mewn i'r croen i greu llinellau mân i ddylunio siâp aeliau cleientiaid.

Bydd y cwrs yn cynnwys pynciau megis:

Anatomeg a Ffisoleg
Iechyd a Diogelwch
Deddfwriaeth
Y broses ymgynghori
Lliw croen a mathau o groen
Creu aeliau trwy strociau gwallt
Theori lliw
Cymhwyso ymarferol
Ôl-ofal

Byddwch chi'n ymarfer ar groen ffug yn yr achos cyntaf ond bydd gofyniad i chi ddarparu 6 chleient fel astudiaethau achos ac ar gyfer asesu yn ystod eich cwrs.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r dosbarthiadau'n fach ac ni fydd mwy na 4 dysgwr er mwyn i'r tiwtor allu sicrhau addysgu un i un dwysach.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn ac nid oes angen i chi feddu ar unrhyw brofiad na chymwysterau ym maes harddwch.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Sylwer, o 2024, mae'n ofyniad gan awdurdodau lleol eich bod chi'n cwblhau hyfforddiant gorfodol i dderbyn cofrestriad ymarfer microlafnu. Bydd y cwrs hyfforddiant gorfodol undydd mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gael i chi yn Coleg Gwent.

Bydd gofyniad i chi wisgo gwisg clinig y gallwch chi ei phrynu o'ch cyflenwyr gwallt a harddwch lleol neu drwy'r coleg.

Mae ffioedd y cwrs wedi'u nodi ar frig y dudalen hon. Maent yn cynnwys addysgu, cofrestriad a chit llawn sy'n cynnwys pigmentau lliw.

Telir y ffioedd dysgu wrth gofrestru. Os bydd angen, gallwch wneud hyn trwy ddebyd uniongyrchol dros pum rhandaliad.

Os yw'ch cyflogwr yn ariannu eich cwrs, bydd angen derbyn cadarnhâd o hyn yn ysgrifenedig er mwyn i'r coleg drefnu anfoneb ar ei gyfer.